**ssce CYMRU**

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN ADDYSG YNG NGHYMRU

# BWLETIN MISOL

## MEDI 2023







ssce CYMRU

CLILC WLGA

# Negeseuon gan dîm SSCE Cymru...



## Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

*"Croeso nôl! Gobeithio eich bod wedi cael seibiant hyfryd dros wyliau'r haf a'ch bod yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at barhau i weithio gyda fy ysgolion sydd wedi dechrau ar eu taith tuag at ddod yn Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog. Bydd yn wych eich gweld yn cael eich dyfarnu'ch statws' y tymor hwn ac yn cael eich cydnabod am eich ymrwymiad i gefnogi eich plant Milwyr.*

*Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at weithio gyda llawer o ysgolion newydd ledled Gogledd Cymru eleni felly plîs cysylltwch os oes gennych blant y Lluoedd Arfog wedi cofrestru yn eich ysgol. Rwyf ar gael ar gyfer cymorth cyffredinol/cyngor, hyfforddiant, i archwilio cyfleoedd cyllido, i drafod ymuno ag ysgolion eraill ledled Cymru sydd wedi dod yn Ysgol sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ynghylch cefnogi plant milwyr mewn addysg. Edrychaf ymlaen at glywed gennych dros y misoedd nesaf!"* **Cara, CaraLloyd-Roberts@ynysmon.llyw.cymru**

## Swyddog Arweiniol Cyfranogiad



*"Croeso yn ôl! Rwy'n gobeithio eich bod wedi mwynhau seibiant mawr a'ch bod yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd sydd i ddod. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddweud croeso wrth unrhyw blant/pobl ifanc newydd y Lluoedd Arfog sydd wedi symud i Gymru dros yr wyliau'r Haf. Rydym yn deall pa mor frawychus y gall fod yn dechrau ysgol newydd a chwrdd ag athrawon newydd, ond gobeithiwn y bydd y cyffro o wneud ffrindiau newydd yn lleddfu eich nerfau. Edrychwch ar ffilm profiadau plant y Lluoedd Arfog SSCE Cymru i wybod nad ydych chi ar eich pen eich hun o ran sut rydych chi'n teimlo. Pob lwc ac unwaith y byddwch wedi setlo, os hoffech rannu eich profiadau gyda ni, yna ystyriwch ymuno â'n llysgenhadon plant y Lluoedd Arfog SSCE Cymru ttra byddwch yma yng Nghymru. Byddem wrth ein bodd yn clywed oddi wrthych!"*

**Jo, Joanna.wolfe@wlga.gov.uk**

ssce CYMRU

CLILC WLGA

Cyflwyno gwobr newydd SSCE Cymru 'Seren of the month'. Mae hwn yn gyfle i'n tîm gydnabod SEREN SSCE Cymru yn gyhoeddus, a dweud diolch i blentyn y Lluoedd Arfog, aelod o staff ysgol, cydweithiwr gwaith, aelod o'r rhwydwaith neu sefydliad sydd wedi cydweithio'n gadarnhaol â ni neu wedi dangos cefnogaeth eithriadol i blant milwyr mewn addysg a'u cymuned Lluoedd Arfog lleol. Rydym yn ddiolchgar i weithio gydag unigolion a grwpiau gwirioneddol ysbrydoledig sy'n sicrhau bod plant y Lluoedd Arfog yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u dathlu yma yng Nghymru.

## Seren of the month – Medi 2023

Mae wedi bod yn bleser gweithio ochr yn ochr â'r Dirprwy Bennaeth Kayley Phillips i gefnogi plant Lluoedd Arfog Ysgolion Cynradd Cwmclydach. Mae Kayley wedi bod mor flaenweithgar i'w phlant Lluoedd Arfog yn yr ysgol, ac er mai dim ond nifer fach o blant y Lluoedd Arfog sydd, mae Kayley yn sicrhau eu bod yn cael yr addysg orau bosibl a bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Enghraifft anhygoel o hyn yw Ysgol Gynradd Cwmclydach yn cynnal diwrnod i ddathlu Diwrnod y Lluoedd Arfog ym mis Mehefin eleni, lle bu'r ysgol gyfan yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog ac yn cydnabod profiadau eu plant Lluoedd Arfog. Diolch yn fawr iawn am bopeth rydych chi'n ei wneud i gefnogi'ch plant Lluoedd Arfog, Kayley, gobeithiwn y byddwch chi'n mwynhau eich cyfnod mamolaeth!



**Kayley Phillips**
**Dirprwy Bennaeth**
**Ysgol Gynradd Cwmclydach**

***Rydych chi wedi gwneud fy niwrnod yn llwyr! Diolch yn fawr am hyn! Rwyf wrth fy modd yn gweithio gyda chi a phlant y lluoedd arfog, mae'n anrhydedd llwyr fod yn rhan o waith SSCE ac rwy'n gyffrous i barhau i gefnogi ein plant Lluoedd Arfog ym mha bynnag ffordd y gallwn."***
**Kayley Phillips**

**Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am y wobr SSCE Cymru 'Seren of the month'.**

SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN ADDYSG YNG NGHYMRU

Lansiwyd Ysgolion sy’n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru yn 2022. Mae ysgolion yng Nghymru yn cwblhau cyfres o weithgareddau a chamau gweithredu sy'n gysylltiedig â Rhestr Wirio Ysgolion SSCE Cymru, gan gynnwys rhai elfennau gorfodol, er mwyn cyflawni eu statws Efydd, yna Arian ac yna Aur. Yr amcanion yw ymgorffori arfer da ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog, creu amgylchedd cadarnhaol i blant y Lluoedd Arfog rannu eu profiadau ac annog ysgolion i ymgysylltu'n well â’u chymuned Lluoedd Arfog.

**Llongyfarchiadau** i bob ysgol sydd wedi cyflawni eu statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru. Hyd yn hyn, mae 14 ysgol wedi cyflawni eu statws Efydd, mae 3 wedi ennill Arian a 2 wedi ennill Aur!!

14

3

2

Edrychwn ymlaen at weithio gyda llawer mwy o ysgolion y flwyddyn hon!!

Cliciwch yma am rhagor o wybodaeth am Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru.

CLILC WLGA

## E-ddysgu SSCE Cymru

Mae tîm SSCE Cymru yn gyffrous iawn i fod yn y broses o weithio gyda Walkgrove Ltd i ddatblygu pecyn hyfforddi ar alw, dwyieithog e-dd NEWYDD ar 'Cefnogi plant milwyr mewn addysg yng Nghymru', yn seiliedig ar gynnwys y sesiynau DPP sydd wedi'u cyflwyno'n llwyddian RSLOs dros y blynyddoedd diwethaf.

YN DOD YN FUAN!!

## Gwobrau plant y Lluoedd Arfog Cymru 2023

**Mae'r categorïau'n cynnwys:**

- Cyfraniad at Chwaraeon
- Llysgennad Plentyn Milwrol y Flwyddyn
- Gwobr Gymunedol
- Gwobr Arwr Tawel

**Dyddiad cau ar gyfer enwebiadau: 14eg Medi**

**Gweler fwy o wybodaeth ac enwebwch yma**

## Cyfnodolyn SSCE Cymru

Gweler y cyfnodolyn newydd SSCE Cymru am fanylion a lluniau o'r hyn y mae'r tîm wedi bod yn ei wneud yn ddiweddar!

**Gweler cyfnodolyn SSCE Cymru yma**

NEWYDD!!!

## Digwyddiadau I ddod…

### Diwrnod y Cofio 2023

**11eg Tachwedd 2023**

Mae diwrnod y Cofio yn anrhydeddu'r rhai sy'n amddiffyn ein rhyddid democrataidd a'n ffordd o fyw.

### Cynhadledd flynyddol Cynghrair SCiP 2023

**Dydd Mercher 29 Tachwedd 2023**

Birmingham

Cysylltu gweithwyr proffesiynol â thystiolaeth ac eu gilydd i gefnogi teithiau plant y Lluoedd Arfog i fywydau ffyniannus.

**Gweler gwefan SSCE Cymru am ragor o wybodaeth**

# Cronfa Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg yng Nghymru

Yn 2023/24, gall ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru wneud cais am gyllid drwy gydol y flwyddyn, i gyflwyno prosiectau sy'n benodol i gefnogi plant milwyr mewn addysg, sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm yng Nghymru.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

- Prosiectau £1,000 - agored i bob ysgol ac awdurdod lleol yng Nghymru.
- Prosiectau £5,000 – Agored i ysgolion sydd wedi cyflawni eu statws Efydd Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru a'r holl awdurdodau lleol

Gweler gwefan SSCE Cymru am ragor o wybodaeth

DYDDIAD CAU NESAF:

27ain Hydref

# Cefnogaeth rheoli achosion SSCE Cymru

Mae cefnogaeth rheoli achosion ar gael i ysgolion sydd â phlentyn Lluoedd Arfog unigol neu nifer fach iawn o blant y Lluoedd Arfog sydd ag angen penodol sy'n gysylltiedig ag effaith ffordd o fyw'r Lluoedd Arfog.

Gweler ragor o wybodaeth yma

# Ddogfen cyngor cyllido SSCE Cymru

Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor gan dîm SSCE Cymru ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, i'w cynorthwyo wrth wneud cais am gyllid i gefnogi plant milwyr / cymuned leol y Lluoedd Arfog.

Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys rhestr wirio o gamau gweithredu awgrymedig i helpu wrth baratoi a chwblhau cais am gyllid a rhestr o syniadau ac awgrymiadau cyllido.

Ar gael yma

# Cronfa Teuluoedd y Lluoedd Arfog: Rhaglen Blynyddoedd Cynnar

Bydd y rhaglen hon yn dyfarnu grantiau rhwng £5,000 ac £80,000 ar ran Cronfa Teuluoedd y Lluoedd Arfog Rhaglen Blynyddoedd Cynnar y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer prosiectau sy'n helpu i wella lleoliadau addysg plentyndod cynnar a gofal plant o deuluoedd y Lluoedd Arfog.

Gweler ragor o wybodaeth yma